Ffugenw: Branwen

Blwyddyn 10

Ysgol Bro Hyddgen

Ysgrifennu Stori/Darn Creadigol: ‘Dan olau’r lloer...’

Dan olau’r lleuad derbynnais i yr amlen. Gyda stamp ddu yn y gornel ac enw fi ar y blaen wedi cael ei ysgrifennu yn daclus mewn inc coch.

Tri cnoc ar y drws, dim mwy a dim llai. Codais o’r soffa, lle roeddwn i wedi bod yn eistedd am yr awr ddiwethaf yn gwylio teledu ofnadwy noson Dydd Sadwrn, a atebais i y ddrws.

Ond pan agorais i y ddrws, o’n i wedi synnu fod neb yno. Yn gyntaf credaf oedd i’n mynd y wallgof, fy mod i’n dechrau clywed pethau. Edrychais i lawr, a dyna fo, yr amlen. Yn gorffwys yn dawel ar y llawr oer. Codais e i fyny, cyn edrych o gwmpas tu allan i weld os oedd y person gadawodd fi'r llythyr yn dal yno, ond mae yna ddim arwydd o unrhywun, ddim hyd yn oed ol troed.

Cerddais yn ol i’r soffa ac agorais i yr amlen.

“Annwyl darllenydd. Bore da, neu efallai erbyn i chi dderbyn hyn byddwch o dan olau'r lleuad, felly yn ur achos yna, nos da. Rwyt ti wedi cael dy ddewis i gwblhau fy nghenhadaeth arbennig iawn. Bydd fy adnabyddiaeth yn parhau'n ddirgelwch, nes i chi weithio allan fy nghyfrinach. Yr wythnosau diwethaf rwyf wedi bod yn brysur, yn cynllunio'n fanwl am y noson hon. Mae fy stori yn dechrau yn yr atig...”

Chwerthais, yn meddwl fod joc oedd o, petawn i ond yn gwybod bryd hynny beth dwi'n ei wybod nawr.

O'n i'n meddwl mai jôc ddoniol oedd o, ond doedd hynny ddim yn golygu nad oedd o'n denu fi.

Codais a cerddais i fyny’r grisiau ac ar hyd yr ail lawr nes i gyrraedd yr ysgol a blannwyd yn y gornel gan y ffenest a ddefnyddiaf i godi i'r atig. Yr ysgol oedd ond yn cael ei defnyddio ddwywaith y flwyddyn, i ddod â'r addurniadau Nadolig i lawr ac i'w rhoi yn ol i fyny eto. Gan trio fy ngorau glas i beidio disgyn, ddringais fyny i’r atig. Oedd y golau ymlaen, ond dwi’n cofio bod yn siwr fy mod i wedi diffodd nhw y tro diwethaf roeddwn i’n fyny yna. Edrychais rownd yr ystafell, yn cymryd o gyd i fewn, yn edrych am beth oedd yr amlen yma yn son am. Ac yna y roedd e, bwrdd tua’r maint perffaith am plat a dau cwpan.

Nes i agosau at y bwrdd, ac ar ol pob gam roedd yr amlen yn datgelu ei hyn mwy. Amlen yn union fel yr amlen naeth cael ei gadael wrth y ddrws, efo stamp ddu yn y gornel a inc coch ar y flaen. Rhuthrais i’w agor.

“Rydych chi wedi dod o hyd i ran gyntaf fy mhôs, peidiwch â meddwl bod y gweddill yn mynd i fod mor hawdd â hyn. Roeddwn i'n meddwl y byddwn i'n eich cychwyn chi'n syml ac yn cynyddu'r anhawster wrth i'r noson mynd yn ei flaen. Dyma dy cliw: Dw i'n sychu'r mwyaf rwyt ti'n fy ngwlychu, ble ydw i'n cael ei gadw?”

“Beth yn y byd,” ddywedais gan rhoi yr amlen i lawr ac eistedd ar y llawr. “Sut mae? Beth?” Dwi’n cofio’r teimlad, fy mhen yn llawn cwestiynnau, allwn ni ddim hyd yn oed dychmygu beth oedd i ddod.

“Dw i’n sychu’r mwyaf rwyt ti’n fy ngwlychu, dw i’n sychu’r mwyaf rwyt ti’n fy ngwlychu.” Dwi’n cofio’r distawrwydd byddarol. “Tywel!” Sgrechias, yn teimlo’n clyfar. “Tywel!”

Rhedais nol i lawr yr ysgol, ac yna i’r ystafell ymolchi. “Reit, reit, reit,” siaradais i fy hyn, yn edrych o gwmpas am amlen arall. Bron iawn i mi sgrechian pryd sylwais yr amlen yn gorffwys ar sedd y toiled.

Cyn i mi hyd yn oed meddwl am beth i neud, dwi’n cofio rhwygo fe ar agor.

“Cliw dau: Weithiau dwi'n frenin, ond dwi byth yn gwisgo coron. Beth ydw i?”

Syllais ar yr amlen, yn trio gweld os rydw’n adnabod y llawysgrifen. Meddyliais, pwy sy’ di ysgrifennu yr amlennu yma? A sut mae nhw wedi gadael nhw yn ‘stafelloedd fi?

“Ahhh!” Sgrechias pan sylweddolais yr ateb. “Gwely, gwely! Wrth gwrs.”

Rhedais fel y gwynt mewn i fy ‘stafell wely.

Edrychais o gwmpas ond o’n i ddim yn gallu gweld unrhyw amlen. Agorais droriau yn ffraeo'n ceisio dod o hyd iddo, ond dal ddim byd.

Cwmpais lawr ar y gwely, “os oeddwn i’n trio cuddio amlen, lle byddwn i’n cuddio fe?”

Codais yn gyflym i’r silff llyfrau yn gornel yr ystafell, ond y problem oedd fod gen i gymaint o llyfrau, bydd o’n cymryd oriau i fynd trwy nhw i gyd. Ond, wrth gwrs oedd y person oedd yn gadael yr amlennau eisiau i fi ffindio fo. Gwelais un llyfr yn pocio allan ychydig. Gafaelais ynddo ac allan syrthiodd amlen yn union fel yr oeddwn wedi gobeithio fydd yn.

“Dwi’n siwr erbyn nawr byddwch yn colli dy ymennydd yn trio gweithio allan pwy ydw i. Ond, paid a poeni, mewn amser bydd popeth yn cael ei darganfod. Ond, i nawr, dyma eich cliw nesaf: Mae gen i gefn ond dydw i ddim yn bywl, mae gen ti ffrâm ond dwi ddim yn feic. Beth ydw i?”

Syrthias yn ol i fy ngwely, yn meddwl efallai fydd hynny’n helpu fi gweithio allan y pos. Gweithias allan roedd yn rhaid iddo fod yr ystafell fyw, y gegin, neu'r seler gan mai nhw oedd yr unig ystafelloedd yn fy nhy nad ydw i wedi ymweld a yn barod.

Y soffa.

“Y soffa!”

Mewn fflach, oeddwn i’n lawr yn ‘stafell fyw yn edrych am yr amlen. Ond, oedd yna gymaint bosibiliadau, gormod o bosibiliadau o ran lle y roedd yr amlen wedi cael ei cuddio. Neidiais allan o fy nghroen y funud clywais i swn ffon y ty yn hwylio, yn atseinio trwy’r adeilad ac yn bellaf. Rhedais i ateb fe, “helo,” dywedais.

“Rwyt ti bron a gorffen y gem!” Sibrydodd y llais ar ochr arall y llinell, llais cyfarwydd oedd e. Naeth y llais cryfhau’r syniad fod hyn yn adeiladu fyny at sypreis mawr, aelod o fy nheulu wedi gweithio allan ffordd hwyl o rhoi anrheg penblwydd hwyr i mi. “A beth yw fy gliw nesaf?”

Naeth y llais peswch cyn ddweud, “Edrychwch yn y gofod i lawr isod am eich cliw olaf.”

Taflais y ffon i lawr, yn cosi i ddarganfod dirgelwch yr amlenni.

Yn y selar roedd yna ddim byd on bwrdd, wedi cael ei gosod allan fel bwrdd cyfarfod. Ar y bwrdd roedd yna lamp gwelw yn rhoi digon o golau allan i mi weld yr amlen.

Cyn i mi sylweddoli beth oeddwn i’n neud, rhwygais yr amlen ar agor.

“Dyma ni, dy cliw olaf. Ydech chi’n cyffrous i ffindio allan pwy ydw i? A pam dwi wedi anfon ti ar y cenhadaeth yma? Er mwyn cael gwybod pwy ydw i, mae'n rhaid i chi fynd i'r ystafell lle rydych chi'n cadw rhywbeth sy'n troi dŵr yn iâ.”

Y gegin oedd yr unig ystafell doeddwn i ddim wedi ymweld, felly yn naturiol es i'n syth ati.

“Helo,” sgrechias ar ol cerdded i mewn i’r ystafell.

Edrychais o gwmpas, gan obeithio dod o hyd i amlen neu efallai hyd yn oed y person sy'n ysgrifennu'r amlenni hyn.

Troes i o gwmpas pan glywais i rhywun yn sibrwd. Ond oedd neb yna, wel, credaf oedd neb yno.

“Helooooo,” ddwedais eto, yn dal aros am ateb.

A wedyn, wel. Dwi’m yn gwybod sut i disgrifio fe. A wedyn daeth y diwedd, y foment mae bywyd yn adeiladu fyny at.

Ers oeddwn i’n merch ifanc, dywedodd mam byddai fy ymennydd yn fy lladd. Bod fy chwilfrydedd yn ormod i'r byd hwn, ac roedd hi’n gywir.

Dan olau’r lleuad cymerais i fy anadl olaf, ac i’r dyddiad yma mae fy llofruddiaeth dal yn dirgelwch.